**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref ASMawrth26
Ein cyf/Our ref FM -/00161/26

Y Cynghorydd Thomas
Cadeirydd y Cyngor
Cyngor Gwynedd

AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru

30 Mawrth 2026

Annwyl Ioan,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr ynglŷn â'r cynnig a fabwysiadwyd yn ddiweddar gan Gyngor Gwynedd, sef bod y Cyngor yn gwrthwynebu system Adnabod Digidol Llywodraeth y DU ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud yr un fath hefyd.

Mae hunaniaeth ddigidol bron yn gyfan gwbl yn fater nad yw wedi'i ddatganoli, a chyhoeddwyd y system hunaniaeth ddigidol genedlaethol newydd yn wreiddiol gan y Prif Weinidog ym mis Medi y llynedd.

Rwy'n ymwybodol bod Llywodraeth y DU wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch y system ar 10 Mawrth - Gwneud i wasanaethau cyhoeddus weithio i chi gyda'ch hunaniaeth ddigidol, a bydd yn dod i ben ar 5 Mai.

Bydd etholiadau i'r Senedd yn cael eu cynnal ar 7 Mai. Mater i Lywodraeth newydd Cymru felly fydd ymateb i'r ymgynghoriad. Bydd angen i'r Llywodraeth newydd ystyried y goblygiadau o ran Cymru a sut y bydd y cynigion yn gweithio ar gyfer gwasanaethau'r DU a gwasanaethau sy'n benodol i Gymru. Bydd angen iddynt hefyd ystyried materion fel cynhwysiant digidol a sgiliau digidol isel, mynediad at wasanaethau cyhoeddus, cydraddoldeb, a'r effeithiau posibl ar breifatrwydd a rhyddid sifil.

Yn gywir,

**Eluned Morgan**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.